

CANLLAW

Deddf Priodas (Cyplau o'r un rhyw) 2013:  
Y Goblygiadau Cydraddoldeb a Hawliau  
Dynol i Sefydliadau Crefyddol

Mae'r Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 (y Ddeddf) yn ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllaw hwn yn egluro sut mae'r Ddeddf yn effeithio ar hawliau a dyletswyddau sefydliadau crefyddol dan gyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae hawliau dan ddeddfau cydraddoldeb yn amddiffyn yn erbyn gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ar sail nodweddion gwarchoddedig amrywiol, gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Hefyd mae deddfau hawliau dynol yn darparu amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu wrth fwynhau hawliau penodol, ac mae'n amddiffyn yr hawliau i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, rhyddid i ymgynnull a rhyddid mynegiant. Mae ein cyfarwyddyd cysylltiedig ar briodas a'r gyfraith yn trafod yr hawliau hyn yn fanylach

## Pwyntiau allweddol

---

- Mae'r Ddeddf yn ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr, tra'n amddiffyn rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd ar yr un pryd.
- Mae corff llywodraethu sefydliad crefyddol yn rhydd i ddewis a ddylid priodi cyplau o'r un rhyw.
- Lle mae corff llywodraethu sefydliad crefyddol wedi dewis optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw, galluogir y sefydliad hwnnw a'i swyddogion i briodi cyplau o'r un rhyw.
- Os nad yw sefydliad crefyddol wedi optio i mewn, ni all briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl ei ddefodau; mae'n annhebygol y cydnabyddir y fath briodas, os digwydd, gan y gyfraith ac mae'n bosibl ei dirymu.
- Ni all Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl ei ddefodau. Mae'r Ddeddf yn cydnabod eu bod mewn sefyllfa gyfreithiol wahanol i'r sefydliadau crefyddol eraill ac mae'n cyflwyno sut y gellir newid y gyfraith os digwydd fod y naill gorff llywodraethu neu'r llall o'r sefydliadau hynny'n penderfynu ei fod yn dymuno priodi cyplau o'r un rhyw.
- Mae'r Ddeddf yn rhoi amddiffyniad pendant i sefydliadau crefyddol a'u swyddogion rhag gael eu gorfodi trwy unrhyw fodd i gynnal gweithgareddau ynghylch priodasau crefyddol cyplau o'r un rhyw.

- Lle mae sefydliad crefyddol yn dewis optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw, ond nad yw swyddog y sefydliad hwnnw'n dymuno ymgymryd â'r fath ddyletswyddau priodas gan eu bod yn ymwneud â chwpl o'r un rhyw, mae'r Ddeddf yn amddiffyn y swyddog rhag gael ei orfodi i wneud felly.

## Effaith ar sefydliadau crefyddol a'u swyddogion

---

### Terminoleg

Yn y cyd-destun hwn mae sefydliad crefyddol yn golygu'r sefydliad crefyddol y mae'r briodas yn mynd i gael ei gweinyddu yn ôl ei ddefodau neu ddefnyddiau.

Yn y cyd-destun hwn mae swyddogion crefyddol yn golygu'r rhai hynny sydd wedi'u penodi ac awdurdodi gan y sefydliad crefyddol er mwyn gweinyddu priodasau in ôl eu defodau priodas a'r rhai hynny a awdurdodir i fod yn bresennol yn ystod y broses o weinyddu priodasau.

Mae corff llywodraethu sefydliad crefyddol yn amrywio o sefydliad i sefydliad; gallai fod yr arweinyddiaeth genedlaethol, cynrychiolwyr y gynulleidfa leol neu gorff allanol (**gweler adrannau 4(4) a 5(5) y Ddeddf am fanylion pellach**).

### Optio i mewn ac optio allan

Mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn dal i ganiatáu i'r holl sefydliadau crefyddol gynnal priodasau yn unol â'u credau, defodau neu ddefnyddiau neilltuol. Ni chydabyddir yr holl briodasau hynny gan y gyfraith. Mae'r gyfraith dim ond yn rhagnodi gofynion am y briodas lle ceisir cydnabyddiaeth gyfreithiol. Mae'n darparu i briodasau crefyddol penodol gael cydnabyddiaeth gyfreithiol os yw gofynion rhagnodedig yn cael eu bodloni.

Os yw sefydliad crefyddol, heblaw am Eglwys Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru, yn dymuno priodi cyplau o'r un rhyw yn ôl ei ddefodau a gweithdrefnau priodi, gall wneud hynny dim ond os yw'n optio i mewn. Os yw wedi optio i mewn yn flaenorol, gall ddewis optio allan wedyn.

Os yw sefydliad crefyddol yn dewis peidio â phriodi cyplau o'r un rhyw, mae ei swyddogion yn rhwym wrth y penderfyniad hwnnw. Yn y sefyllfa honno, ni all ei

swyddogion briodi cwpl o'r un rhyw yn ôl defodau crefyddol a gweithdrefnau priodi'r sefydliad hwnnw.

Hefyd bydd swyddogion yn rhwym wrth ethos ac athrawiaethau crefyddol y sefydliad crefyddol neilltuol maent yn perthyn iddo a'i gynrychioli. Mae sefydliadau crefyddol yn cadw'r hawl i gynnal a gorfodi ymlyniad wrth eu daliadau crefyddol.

Caniateir priodasau crefyddol cyplau o'r un rhyw, lle mae'r sefydliad crefyddol wedi optio i mewn. Mae swyddogion sefydliadau crefyddol yn rhydd i ddewis a ydynt yn dymuno cynnal, gweinyddu neu gymryd rhan yn y briodas neu beidio. Felly amddiffynnir rhyddid crefyddol y cwpl o'r un rhyw, a rhyddid crefyddol y sefydliad crefyddol a'i swyddogion.

## Clo pedwarplyg

---

Mae'r Ddeddf yn darparu amddiffyniad cyfreithiol pendant trwy'r 'clo pedwarplyg' i'r sefydliadau crefyddol hynny nad ydynt yn dymuno priodi cyplau o'r un rhyw yn ôl ei ddefodau neu weithdrefnau priodi. Ni ellir eu gorfodi i wneud hynny trwy unrhyw fodd. Mae'r clo pedwarplyg yn:

1. gwneud yn glir y bydd priodas grefyddol cwpl o'r un rhyw yn bosibl dim ond os:
  - mae corff llywodraethu'r sefydliad crefyddol wedi optio i mewn trwy roi cydsyniad pendant i briodasau cyplau o'r un rhyw, ac
  - mae'r swyddog unigol yn fodlon cynnal y briodas, ac
  - os yw'r briodas yn digwydd mewn man addoli, mae'r safle hwnnw wedi'i gofrestru ar gyfer priodasau cyplau o'r un rhyw.
2. datgan yn bendant na ellir gorfodi unrhyw sefydliad crefyddol i optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw nag i ganiatáu i hyn ddigwydd ar ei safle; ac ni ellir gorfodi unrhyw sefydliad crefyddol na'i swyddog trwy unrhyw fodd i gynnal neu gymryd rhan mewn priodasau cyplau o'r un rhyw.
3. diwygio'r Ddeddf Cydraddoldeb i wneud yn glir nad yw'n wahaniaethu anghyfreithlon i sefydliad crefyddol ac/neu ei swyddogion wrthod priodi cwpl o'r un rhyw.
4. sicrhau nad yw dyletswydd gyfreithiol y gyfraith gyffredin ar glerigwyr Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru i briodi plwyfolion yn ymestyn i gyplau o'r un

rhyw. Mae'r Ddeddf hefyd yn amddiffyn cyfraith Eglwysig Eglwys Lloegr, sy'n datgan bod priodas yn uniad o un dyn gydag un fenyw, fel nad yw'n gwrthdaro â'r gyfraith sifil.

Os digwydd fod sefydliad crefyddol yn dewis optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl ei ddefodau neu weithdrefnau priodi, ond nad yw swyddog unigol o'r sefydliad hwnnw'n dymuno cynnal y fath briodasau oherwydd ei gredau/chredau crefyddol neu eraill, dylai'r sefydliad crefyddol ystyried dod o hyd i rywun arall yn ei le. Gallai hyn fod yn swyddog arall a awdurdodir i weinyddu priodasau o fewn y sefydliad hwnnw, neu gofrestrydd priodasau sydd ar gael lle mae angen i unigolyn awdurdodedig fod yn bresennol yn ystod y broses o weinyddu'r briodas.

Os nad yw'r naill na'r llall o'r opsiynau hynny ar gael, mae'r Ddeddf yn datgan yn glir y byddai'n anghyfreithlon i'r sefydliad crefyddol geisio gorfodi ei swyddog trwy unrhyw fodd i gynnal y fath briodasau. Fodd bynnag, mae gan sefydliadau crefyddol hawliau hefyd dan Erthyglau 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) ac 11 (rhyddid i ymgynnull) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn), sy'n caniatáu iddynt reoli eu materion mewnol heb ymyrraeth diangen ac anghymesur gan y Wladwriaeth.

Awgrymir yn gryf bod sefydliadau crefyddol sy'n optio i mewn a'u swyddogion yn trafod ac yn cyd-gytuno pwy fydd a phwy na fydd yn gweinyddu ar briodasau cyplau o'r un rhyw. Dylai hyn gynnwys yr hyn sydd angen ei wneud, a gan bwy, os digwydd fod swyddog yn gwrthod, ar fyr rybudd, i weinyddu ar briodas gan ei bod yn briodas cwpl o'r un rhyw. Bydd hyn yn helpu i osgoi gwrthdaro mewnol a bydd yn sicrhau y gellir cwrdd â disgwyliadau dilys a rhesymol cyplau o'r un rhyw.

## Effaith ar gaplaniad a gyflogir

---

Yn aml mae caplaniaid yn cynrychioli sefydliadau crefyddol, heblaw am weithio mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol fel ysbytai, carchardai, y lluoedd arfog, sefydliadau addysg uwch a phellach ac ysgolion. Mae'n bosibl y'i cyflogir gan y sefydliad, esgobaeth, ymddiriedolaeth elusennol leol, rhyw fath o gyngor caplaniaeth neu sefydliad arall. Gallant fod yn weinidogion wedi'u hordeinio, neu weinidogion lleyg. Gallant fod yn gyflogedig neu gallant fod yn wirfoddolwyr di-dâl neu o bosibl y

telir honorariwm iddynt. Bydd eu hamgylchiadau 'gwaith' neilltuol yn berthnasol wrth benderfynu a yw darpariaethau cyflogaeth cyfraith cydraddoldeb ac amddiffyniadau hawliau dynol yn gysylltiedig.

Mae caplaniaid mewn sefyllfa wahanol i gyflogeion a deiliaid swyddi eraill gan eu bod yn rhwym wrth yr athrawiaethau, penderfyniadau a chyfyngiadau a orfodir yn gyfreithlon gan y sefydliad crefyddol maent yn gysylltiedig ag ef. Felly ni allant briodi cyplau o'r un rhyw lle mae'r sefydliad crefyddol wedi benderfynu peidio ag optio i mewn neu yn achos Eglwys Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru. Mae hyn oherwydd, dan yr amgylchiadau hyn, nis awdurdodir i wneud hynny gan y gyfraith.

Mae'r Ddeddf yn darparu amddiffyniad i swyddogion crefyddol rhag gael eu gorfodi i briodi cyplau o'r un rhyw. Felly os ydynt yn perthyn i sefydliad sydd wedi optio i mewn i briodasau cyplau o'r un rhyw, mae'r Ddeddf yn datgan na ellir eu gorfodi i gynnal y fath briodas os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny.

Mae cyfraith hawliau dynol yn amddiffyn rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd a rhyddid mynegiant. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i unigolion fynegi eu barn yn rhydd, yn gyhoeddus ac yn y gwaith, yn amodol ar y fath gyfyngiadau â sydd eu hangen er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Mae gan gaplaniaid yr un hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid grefyddol â phawb arall. Fel swyddogion sefydliadau crefyddol neilltuol, maent yn rhydd i fynegi barn ynghylch priodas cyplau o'r un rhyw yn unol â'u hathrawiaeth grefyddol mewn pregeth grefyddol, neu mewn cyd-destunau crefyddol eraill. Mae'r hawliau hynny hefyd yn gymwys, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithlon, mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol, lle, er enghraifft, mae caplaniaid yn gweithio mewn carchardai, ysbytai neu sefydliadau addysgol.

Pan ydynt yn gweithio mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol disgwylir i gaplaniaid ddilyn polisïau ac arferion gweithle ynghylch urddas yn y gwaith a chydraddoldeb ac amrywiaeth y cyflogwr nad yw'n grefyddol. Ni all caplan wrthod darparu gwasanaethau caplaniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol pan yw'n gweithio i'r sefydliad nad yw'n grefyddol gan y byddai hyn fel arfer yn wahaniaethu anghyfreithlon wrth ddarparu gwasanaethau neu ymarfer swyddogaethau cyhoeddus, oni bai fod eithriad mewn cyfraith cydraddoldeb yn caniatáu'r fath ymddygiad. Os nad yw eithriad yn gymwys, ni all caplan ddefnyddio cydymffuriad ag

athrawiaeth grefyddol fel amddiffyniad i ymddygiad gwahaniaethol dan yr amgylchiadau hyn.

Yn gyffredinol, dylid ystyried gweithredoedd neu ymddygiad caplan mewn sefyllfaoedd grefyddol a sefyllfaoedd nad ydynt yn grefyddol ar wahân. Ni ddylai'r hyn mae ef/hi yn ei ddweud am briodas cyplau o'r un rhyw mewn pregeth grefyddol mewn eglwys fod yn sylfaen ar gyfer cael ei anfanteisio neu ar gyfer dioddef niwed yn y gweithle nad yw'n grefyddol. Gallai hyn olygu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn y caplan ar sail crefydd neu gred.

Ystyrir sefyllfa caplaniaid hefyd yn y cyfarwyddyd ar y gweithle a chyflenwi gwasanaethau.

## Newidiadau i gyfraith cydraddoldeb

---

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf Cydraddoldeb) yn cynnwys dyletswyddau i beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn, ag aflonyddu'n anghyfreithlon, unigolion ar sail nodweddion gwarchoddedig, sy'n cynnwys priodas a phartneriaeth sifil, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Hefyd mae'n gwahardd erlid unigolyn am gynnal gweithred warchoddedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mewn cyd-destunau gwaith, gallai ymddygiad sy'n creu gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon ar sail nodwedd warchoddedig (fel crefydd neu gred, ailbennu rhywedd ac/neu gyfeiriadedd rhywiol) arwain at atebolrwydd dan gyfraith sifil a sancsiynau i'r cyflogwr a'r cyflogai fel ei gilydd y penderfynir eu bod wedi gweithredu'n anghyfreithlon.

Fodd bynnag, mae cyfraith cydraddoldeb yn darparu llawer o eithriadau i alluogi sefydliadau crefyddol a'u swyddogion i weithredu yn ôl eu hathrawiaeth ac yn unol â chredau dwfn eu haelodau.

Diwygiwyd Atodlen 3 i'r Ddeddf Cydraddoldeb gan y Ddeddf er mwyn atal sefydliadau crefyddol a'u swyddogion rhag gael eu herio'n llwyddiannus dan Ran 3 y Ddeddf Cydraddoldeb pan ydynt yn dewis peidio â phriodi cyplau o'r un rhyw. Hefyd diwygiwyd Rhan 5 y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn ei wneud yn glir, ar gyfer sefydliadau crefyddol a'u swyddogion sy'n gwrthod cymryd rhan mewn priodasau

cyplau o'r un rhyw, nad yw hyn yn creu gwahaniaethu anghyfreithlon yng nghydestun gwaith.

## Rhyddid mynegiant a rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

---

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd a'r hawl i ryddid mynegiant fel y'i cyflwynir yn ei dro yn Erthyglau 9 a 10 y Confensiwn, er bod yr hawliau hyn yn amodol ar gyfyngiadau i amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill. Felly gall unigolion fynegi barn gadarnhaol neu negyddol ynghylch priodasau cyplau o'r un rhyw. Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod fod y cred y gall priodas fod rhwng dyn a menyw yn unig yn gred sy'n haeddu parch mewn cymdeithas ddemocrataidd.

Amddiffynnir hawliau unigolyn i fynegi ei gredau, barn neu syniadau'n rhydd o flaen y cyhoedd ymhellach gan y newid a wnaed gan y Ddeddf i'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 (POA), sy'n cyfyngu ar y bosibilrwydd o atebolrwydd troseddol ar gyfer troseddau penodedig o ganlyniad i fynegi barn ynghylch priodas a rhwyedd y partion iddi.

Amddiffynnir rhyddid meddwl yn bendant dan ddarpariaethau'r POA ynghylch y troseddau o ysgogi casineb ar sail crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol (gweler Rhan 3A ac adrannau 29J a 29JA POA). Dan y Ddeddf, mae'r Senedd wedi amddiffyn ymhellach hawliau unigolion i fynegi eu barn ar briodas cyplau o'r un rhyw trwy drafod neu feirniadu heb wynebu unrhyw sancsiwn troseddol dan y POA, trwy fewnosod is-adran newydd yn adran 29JA. Er mwyn gwarantu na ddelir rhoi barn ar briodas cyplau o'r un rhyw yn unig gan y troseddau o ymddygiad bygythiol a lleferydd gasineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol, mae Adran newydd 29JA (2) o'r POA yn pennu: *'nid ystyrir y bydd unrhyw drafodaeth neu feirniadaeth o briodas ynghylch rhyw'r partion i'r briodas ynddi ei hunan yn fygythiol nag â'r bwriad o ysgogi casineb.'* Mae'n adlewyrchu'r is-adran bresennol (1) sy'n ei wneud yn glir *'nid ystyrir y bydd unrhyw drafodaeth neu feirniadaeth o ymddygiad neu arferion rhywiol ynddi ei hunan yn fygythiol nag â'r bwriad o ysgogi casineb.'* Er mwyn i ymddygiad neu ymarweddiad cyhoeddus dorri ar y gyfraith droseddol, mae'r POA angen tystiolaeth y tu hwnt i amheuo rhesymol bod yr ymddygiad yn fygythiol ac â'r bwriad o ysgogi casineb ar sail crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'n rhaid cynnal yr ymchwilio,



erlyn a phenderfynu ynghylch troseddau posibl, dan y POA a'r gyfraith droseddol yn fwy cyffredinol, yn unol â hawl unigolyn i ryddid mynegiant.

## Effaith ar safleoedd a rennir gan sefydliadau crefyddol

---

Weithiau bydd sefydliadau crefyddol ag ymagweddau gwahanol tuag at briodi cyplau o'r un rhyw yn rhannu manau addoli. Fformiwleiddiwyd rheolau arbennig er mwyn sicrhau, mewn safleoedd a rennir, y gall priodasau cyplau o'r un rhyw ddigwydd dim ond lle mae cytundeb wedi'i gael gan awdurdodau llywodraethu'r holl sefydliadau crefyddol sy'n rhannu'r safleoedd. Cyflwynir y rhain yn y Ddeddf ac mewn Rheoliadau a wneir oddi dani:

<http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2014/9780111108734>

Gall sefydliad sy'n rhannu gytuno i sefydliad arall briodi cyplau o'r un rhyw yn yr adeilad, heb optio i mewn ei hunan i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau neu weithdrefnau priodi. Pe byddai capel a rennir gan Eglwys Lloegr (neu'r Eglwys yng Nghymru) yn cael ei gofrestru ar gyfer priodi cyplau o'r un rhyw, ni fyddai'n gyfreithiol bosibl o hyd i unigolion o'r un rhyw briodi yn ôl defodau Eglwys Lloegr (neu'r Eglwys yng Nghymru) yn y capel hwnnw.

Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau drafft ar gyfer Adeiladau Crefyddol a Rennir, a gauodd ar 1 Tachwedd 2013. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad ar 23 Ionawr 2014 a gellir gweld yr ymateb perthnasol yma: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/marriage-same-sex-couples-act-2013>

## Gwybodaeth bellach

---

Mae'r EHRC wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau cyfarwyddyd cyfannol:

*Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer priodas a'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr*

*Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus*

*Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer y ddarpariaeth o addysg ysgol*

*Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer y gweithle a chyflenwi gwasanaethau*

*Canllaw cyflym i'r Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013*